



Tablau Lluosi Actif

- Prosesau rhif



Trosolwg

Drwy ymarfer tablau lluosu a phrosesau rhif mewn ffordd hwyliog ac actif, bydd y disgyblion yn ymgysylltu mwy â'u dysgu. Mae posib teilwra'r syniadau gweithgarwch yma i weddu i unrhyw lefel o ddealltwriaeth fathemategol a byddant yn helpu i wella hyder mewn mathemateg pen hefyd.

Adnoddau

- Pêl
- Gofod agored mawr
- Sialc neu fyrddau gwyn (ar gyfer ysgrifennu brawddegau rhifau)

Syniadau Gweithgarwch

Gêm Swyddogaeth Pêl:

1. Penderfynwch pa dabl lluosu mae'r bêl yn mynd i'w gynrychioli e.e. $\times 4$.
2. Mae'r taflwr yn dweud rhif wrth daflu at berson arall e.e. 5
3. Rhaid i'r daliwr weiddi'r ateb wrth iddo ddal y bêl e.e. 20 (5×4)

Hafaliadau Neidio:

1. Heriwch y disgyblion i neidio 3 gwaith ac wedyn hopian 4 gwaith.
2. Gofynnwch sawl gwaith y gwnaeth troed gyffwrdd â'r ddaer a mynegi hyn fel hafaliad e.e. $(3 \times 2) + 4 = 10$
3. Gofynnwch beth fyddai'r cyfrif pe bai 5 myfyriwr yn dal dwylo yn gwneud yr un peth? $5(3 \times 2 + 4) = 50$
4. Archwiliwch greu brawddegau rhif gwahanol drwy symudiadau amrywiol.

Tablau Lluosi Stablu:

1. Gyda'r grŵp mewn cylch, dechreuwch gyfrif o 1 o amgylch y grŵp.
2. Penderfynwch ar sŵn anifail y mae'n rhaid ei wneud bob tro mae rhif yn nhabl lluosu 3 e.e. rhaid i'r disgybl ddweud mŵ yn lle dweud y rhif.
3. Unwaith mae hynny wedi ei feistroli, penderfynwch ar sŵn ar gyfer pan mae rhif yn nhabl lluosu 4 e.e. mê fel dafad.
4. Trafodwch beth ddylid ei wneud os yw'r rhif yn y ddau dabl!

Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwyr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyryr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd:

- Meithrin hyder mewn mathemateg pen
- Gwella hylifedd cofio tablau lluosu
- Mynegi hafaliadau a phrosesau rhif fel brawddegau rhif

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio ar y cyd â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyryr.

Maes pwnc	Testun	Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach
AG	Sgiliau pêl/ Hyblygrwydd	Cysylltu'r gemau actif yma â sgiliau sydd eu hangen mewn Addysg Gorfforol e.e. cydbwysedd, neidio, taflu, dal ac ati
Mathemateg	Rhif	Addasu'r gemau i archwilio meysydd eraill e.e. dyblu, haneru, rhifau sgwâr/cysefin
Llythrennedd ac Iaith	Ffoneg	Gadael i'r bêl gynrychioli sain - rhaid i'r disgyblion weiddi geiriau gyda'r sain hwnnw ynddo wrth iddyn nhw ddal
	Cyfystyron	Y bêl yn cynrychioli cyfystyron - mae'r taflwr yn dweud gair a rhaid i'r daliwr ddweud gair cyfystyr
	Cyferbyniol	Mae taflwr yn dweud gair a'r daliwr yn dweud gair cyferbyniol

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrсияu hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training